# Polisi a Gweithdrefnau Cwynion Dysgwyr Athrofa Padarn Sant (APS)

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

**Tabl Rheoli Dogfen**

| | |
|---|---|
| **Teitl y ddogfen:** | **Polisi a Gweithdrefnau Cwynion Dysgwyr Athrofa Padarn Sant (APS)** |
| **Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):** | Kathryn Delderfield, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, APS |
| **Rhif y fersiwn:** | 3.1 |
| **Statws y ddogfen:** | Cymeradwywyd |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 21 Awst 2023 |
| **Cymeradwywyd gan:** | Bwrdd Gweithredol Athrofa Padarn Sant |
| **Dyddiad rhoi mewn grym:** | Awst 2023 |
| **Dyddiad yr adolygiad nesaf:** | Mehefin 2025 |
| **Y fersiwn a ddisodlir:** | 3 |
| **Dogfennau cysylltiedig:** | Cod Ymddygiad Athrofa Padarn Sant<br>Polisi Aflonyddu Athrofa Padarn Sant<br>Polisi Chwythu'r Chwiban Athrofa Padarn Sant<br>Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Athrofa Padarn Sant |

**Hanes y Ddogfen:**

| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Awdur** | **Nodiadau ar yr Adolygiadau** |
|---|---|---|---|
| 1<br>2<br>3 | 09 Gorffennaf 2019<br>04 Chwefror 2021<br>18 Mehefin 2022 | Kathryn Delderfield<br>Kathryn Delderfield<br>Kathryn Delderfield | • Dogfennau perthnasol wedi eu diweddaru<br>• Eglurhad ar ba gwynion ddaw o dan y polisi hwn<br>• Gwahanu ac adolygu gwybodaeth cyfrinachedd<br>• Gwybodaeth ychwanegol yn adran 7<br>• Ehangu gwybodaeth am apelio i OIA |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.1 | 21 Awst 2023 | Gareth Longden | • Diweddaru gwybodaeth ynghylch cwynion ac apeliadau Common Awards<br>• Newid yr enw i Polisi Gweithdrefnau a Chwynion Dysgwyr Athrofa Padarn Sant er mwyn adlewyrchu bod cwynion ynghylch darpariaeth academaidd yn dod o fan y polisi hwn. Bydd apeliadau yn erbyn marciau yn cael eu hymdrin o dan bolisi Apeliadau Academaidd. |

## Polisi a Gweithdrefn Cwynion Dysgwyr Athrofa Padarn Sant (APS)

### 1. Cynnwys y Polisi


1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Polisi
4. Cyfrinachedd
5. Datrysiad Anffurfiol
6. Cwyn Ffurfiol
7. Gweithdrefn Gwyno
8. Gweithdrefn Apelio


### 2. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob cwyn gan ddysgwyr, ac eithrio'r rhai sydd wedi eu cyfeirio at Bolisi Apeliadau Academaidd; mae'r polisi Apeliadau Academaidd yn cyfeirio at gwynion ynghylch marciau asesiadau. Enghreifftiau o gŵyn fyddai'n dod o dan Bolisi Cwynion, Athrofa fyddai gŵyn yn cynnwys pryder penodol ynghylch darpariaeth modiwl, ymddygiad aelod o staff neu ddysgwr arall neu ddarpariaeth cyfleusterau.

## 3. Polisi

Mae Athrofa Padarn Sant yn disgwyl y bydd pawb sy'n rhan o'i gweithgareddau yn trin ei gilydd â thegwch, urddas a pharch, ac y bydd ei darpariaeth, ei phrosesau a'i gwaith gweinyddu yn rhagorol. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd materion yn codi o bryd i'w gilydd. Gall y rhain fod rhwng dysgwyr, dysgwyr a staff neu gyda'r ddarpariaeth, y prosesau a'r gwaith gweinyddu (mae materion rhwng staff yn cael eu trafod o dan bolisi cwynion Gorff Cynrychiadol yr Eglwys yng Nghymru). Mae'n bwysig bod problemau'n cael eu datrys cyn gynted a chyn deced â phosibl.

## 4. Cyfrinachedd

Bydd Athrofa Padarn Sant yn ymwybodol o'i ymrwymedigaethau o dan reoliadau diogelu data a Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â rhannu gwybodaeth am gŵyn.

Bydd pob parti sydd ynghlwm a'r gwyn yn cael eu hatgoffa o'r cyfrinachedd sydd ynghlwm a'r gweithdrefnau a nodir isod. Bydd unrhyw wybodaeth berthnasol am yr achos yn cael ei rhannu gyda chyn lleied o bobl a phosib.

Lle bo'r risg o niwed neu drosedd wedi ei honi, mae'n bosib bydd angen i'r wybodaeth gael ei gyfeirio at Dim Diogelu yr Eglwys yng Nghymru neu'r awdurdod heddlu lleol.

## 5. Datrysiad Anffurfiol

Yn y lle cyntaf, os yn bosibl, dylai mater gael ei godi'n anffurfiol gyda'r parti arall er mwyn ceisio datrys y mater yn gyflym. Os yw'r mater yn ymwneud â phroses, gwasanaeth neu ddarpariaeth gwaith Padarn Sant, dylai'r mater gael ei godi gyda'r person sy'n gyfrifol am y maes hwnnw.

Cydnabyddir y gall hyn fod yn anodd o dan rai amgylchiadau, yn enwedig os yw'r gwyn yn ymwneud ag ymddygiad treisgar neu wahaniaethol, neu gydbwysedd o

rym yn y berthynas rhwng y dysgwr ac aelod o staff Athrofa Padarn Sant. Mewn achosion o'r fath bydd yr achwynydd yn medru mynd yn syth at y Pennaeth.

## 6. Cwyn Ffurfiol

Os nad oes modd datrys cwyn yn anffurfiol, dylai'r dysgwr godi'r mater gyda'r Pennaeth, a fydd yn penodi aelod o staff uwch i roi'r Weithdrefn Gwyno ar waith.

**D.S.** Os yw'r gŵyn yn erbyn y Pennaeth, dylai'r mater gael ei godi gyda Chadeirydd Bwrdd Gweithredol Athrofa Padarn Sant (mae manylion cyswllt ar gael ar wefan yr Eglwys yng Nghymru).

## 7. Gweithdrefn Gwyno

**7.1** Rhaid i chi amlinellu'r gŵyn yn ysgrifenedig ac anfon y datganiad at y Pennaeth / Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol, gan roi cymaint o fanylion (digwyddiadau penodol, dyddiadau ac ati) â phosibl.

**7.2** Bydd y Pennaeth / Cadeirydd yn penodi aelod o staff uwch a fydd yn trefnu i gyfarfod ffurfiol gael ei gynnal, fel arfer o fewn **5 diwrnod gwaith** i drafod y gŵyn. Bydd yr aelod o staff uwch, ddim wedi bod ynghlwm yn uniongyrchol a'r mater, yn arferol.

**7.3** Mae gan yr achwynydd hawl i ofyn i ddysgwr arall neu aelod o staff ddod i'r cyfarfod hwn.

**7.4** Os yw'r gŵyn yn erbyn unigolyn, mae gan yr unigolyn / parti arall yr hawl i gael ei glywed. Bydd yr aelod o staff sy'n ymchwilio mewn ir achos o gwyn yn trefnu cyfarfod at y pwrpas hwn. Bydd y parti sydd a'r gwyn yn ei herbyn â hawl i ddod a aelod o staff neu gynrychiolydd undeb neu person o gyfrifoldeb tebyg yn ystod y brose.

**7.5** Bydd yr aelod o staff uwch yn ysgrifennu at yr achwynydd gyda'i ymatebion i'r gwyn o fewn 5 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad. Os yw'r gwyn yn erbyn unigolyn arall, byddwn nhw hefyd yn derbyn copi o'r ymateb.

**7.6** Os nad oes modd ymateb i'ch cwyn o fewn yr amser hwnnw, byddwch chi'n cael esboniad o'r rheswm dros yr oedi a bydd pob parti yn cael gwybod pryd y gallwch chi ddisgwyl ymateb.

**7.7** Yn eu ymateb, bydd yr aelod o staff uwch sy'n mynd i'r afael â'r gŵyn yn dod i gasgliad ac yn gwneud argymhellion. Hyd yn oed os na chaiff cwyn ei derbyn, efallai y bydd modd dysgu o'r profiad.

**7.8** Bydd yr ymateb yn cael ei anfon hefyd at y Pennaeth / Cadeirydd a fydd yn asesu'r argymhellion ac yn sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd. Os caiff cwyn yn erbyn unigolyn ei derbyn, efallai y bydd hyn yn cynnwys rhoi'r broses ddisgyblu ar waith.

**7.9** Bydd yr aelod o staff uwch yn ysgrifennu crynodeb ac mi fydd y crynodeb a'r argymhellion o'r ymateb yn cael ei ddanfon at yr Uwch Dim Rheoli a'i drafod er mwyn sicrhau bod canlyniadau'r gwyn yn cael ei ddefnyddio i wella profiad myfyrwyr

**7.10** Os nad yw'r achwynydd yn hapus bod y mater wedi ei ddatrys yn foddhaol, neu os bod yr aelod o staff a apwyntiwyd yn methu ymdrin â'r gwyn ysgrifenedig, yna mae gan yr achwynydd hawl i apelio.

Dealla Athrofa Padarn Sant y gall y broses gwyno fod yn straen i oll sydd ynghlwm ag ef. Fe rhoddir cefnogaeth priodol i'r achwynydd, ac os yw'r gwyn yn erbyn unigolyn byddwn nhw hefyd yn cael cynnig cefnogaeth briodol.

## 8. Gweithdrefn Apelio

**8.1** Os ydy'r achwynydd yn teimlo nad yw'r mater wedi'i ddatrys yn ddigonol a'ch bod yn dymuno apelio, rhaid i chi hysbysu'r Pennaeth / Cadeirydd yn ysgrifenedig o fewn **10 diwrnod gwaith.**

**8.2** Bydd y Pennaeth / Cadeirydd yn trefnu i glywed eich apêl o fewn **10 diwrnod gwaith** i dderbyn hysbysiad ysgrifenedig.

**8.3** Gall dysgwr arall neu aelod o staff ddod gyda'r achwynydd i'r apêl.

**8.4** Bydd y Pennaeth / Cadeirydd yn gwneud penderfyniad ynghylch eich apêl o fewn **10 diwrnod gwaith.**

**8.5** Os nad oes modd ymateb i'ch apêl o fewn yr amser hwnnw, bydd esboniad o'r rheswm dros yr oedi ac mi fydd yr achwynydd yn cael gwybod pryd i ddisgwyl ymateb.

**8.6** Bydd penderfyniad y Pennaeth / Cadeirydd yn dod â phroses gwynion Padarn Sant i ben.   Os ydy'r achwynydd yn astudio ar gwrs yn Athrofa Padarn Sant a'i hachredir, gallant ddewis i fynd a'u cwyn at y brifysgol berthnasol sy'n achredu'r cwrs neu OIA (Office of the Independent Adjudicator). Mae dim ond yn bosib apelio i i o'r cyrff yma pan fydd y gweithdrefnau mewnol wedi dod i ben.

**8.7** Gweler gwybodaeth ynghylch y broses apelio ar gyfer Prifysgolion Dilysu Padarn Sant isod:

**Ar gyfer Prifysgol Caerdydd gweler:**

https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/students-applicants/complaints

**Ar gyfer Prifysgol y Drindod Dewi Sant:**

https://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/llawlyfr-ansawdd-academaidd/

**Ar gyfer Prifysgol Durham gweler:**

https://www.dur.ac.uk/departments/academic/common-awards/students/complaints-appeals/

**8.8** Os nad ydych yn hapus gyda chanlyniadau'r gwyn, mae gennych hawl i drosglwyddo'r mater at yr **OIA (Office of the Independent Adjudicator for Higher Education)** Gallwch wneud hyn naill ai ar ôl i broses gwyno Padarn Sant ddod i ben, neu os wnaethoch godi'r cwyn gyda Phrifysgol sy'n dilysu, ar ôl i'w **proses gwyno nhw ddod i ben.**

Sefydlwyd yr OIA o dan Ddeddf Addysg 2004 i ddarparu cynllun gwyno annibynnol i ddysgwyr. Mae rheidrwydd i bob Prifysgol yng Nghymru a Lloegr i gydymffurfio a'r cynllun, sydd am ddim i ddysgwyr. Yr amserlen ar gyfer cyflwyno cwyn i'r OIA yw 12 mis yn dilyn dod a'r broses apelio i ben. Mae'r gwynion mae'r OIA yn fodlon eu hystyried, ond ddim wedi ei gyfyngu i:

- Apeliadau Academaidd
- Amgylchiadau Esgusodol
- Addysgu a Chyfleusterau

- Llety
- Goruchwyliaeth Ymchwil
- Llesiant
- Gwahaniaethu * (gweler isod)
- Bwlio ac aflonyddu
- Lleoliadau
- Gweithdrefnau Afreolaidd
- Ymarfer Annheg
- Materion Disgyblu - gan gynnwys llên-ladrad*

Mae materion Disgyblu gan gynnwys llên-ladrata. Wrth ystyried materion yn ymwneud â gwahaniaethu nid yw'r OIA yn gweithredu fel llys. Nid yw'n ymchwilio mewn i, nac yn gwneud canfyddiadau cyfreithiol megis llys. Mae'n dderbyniol i'r OIA gyfeirio at y gyfraith a'r canllawiau ar wahaniaethu i ffurfio barn ar arfer dda ac i benderfynu os ydy darparwr wedi ymddwyn yn deg. Nid yw'r OIA yn medru ystyried cwynion ynghylch:

- Derbyniadau
- Barn Academaidd
- Materion sydd wrthi'n ynghlwm neu wedi bod ynghlwm â gweithrediadau Llys neu Thribiwnlys, oni bai bod y gweithrediadau hynny wedi ei rhwystro neu ei ohirio.

Er mwyn gwneud Apêl Academaidd i'r OIA bydd angen i chi:

Ofyn am **'Llythyr Gweithdrefnau wedi dod i Ben'** gan Athrofa Padarn Sant neu'r brifysgol sy'n dilysu, s ydych wedi bod drwy eu proses apêl, i gyflwyno eich apêl i'r OIA.

Bydd angen gofyn am hwn o fewn mis o'ch apêl yn cael ei gynnal. Os nad yw eich apêl wedi ei gynnal bydd y llythyr cyflawni gweithdrefnau yn cael ei ddanfon o fewn **28 diwrnod** ar ôl i weithdrefnau mewnol ddod i ben. Gellir gofyn am lythyr gan y brifysgol yn dilyn cwblhau'r weithdrefn apêl. Gellir dod o hyd i 'r weithdrefn ar wefan OIA **http://www.oiahe.org.uk**